
nationalgrid

National Grid Electricity Transmission



Mae National Grid Electricity Transmission (NGET) wrth wraidd ein system ynni, gan gysylltu miliynau o bobl a busnesau â'r ynni maen nhw'n ei ddefnyddio bob dydd.



Bob tro y caiff ffôn ei blygio i mewn, neu switsh ei droi ymlaen, rydym wedi chwarae rhan yn eich cysylltu â'r ynni sydd ei angen arnoch.

Rydym yn darparu trydan yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon i'r cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn gweithio tuag at adeiladu system ynni ddiogel, glanach a mwy fforddiadwy ar gyfer y dyfodol, gan fuddsoddi dros £30 biliwn erbyn 2031.

nationalgrid

Uwchraddio'r Grid

Mae disgwyl i'r galw am drydan ddyblu erbyn 2050 wrth i'r ffordd rydym yn pweru ein cartrefi, busnesau, diwydiant a thrafnidiaeth newid. Mae angen i ni uwchraddio'r grid nawr i ddiwallu'r cynnydd hwn yn y galw.

Adeiladwyd y rhwydwaith trosglwyddo presennol, gan gynnwys is-orsafoedd presennol Aberddawan, ddegawdau yn ôl i raddau helaeth.

Ni chafodd ei gynllunio i gludo trydan o'r man lle mae'n cael ei gynhyrchu fwyfwy heddiw.



Uwchraddio'r Grid yw'r cynllun mwyaf ers cenedlaethau i adnewyddu'r Grid ac mae'n cefnogi'r newid i ddyfodol ynni glan a mwy fforddiadwy.

Bydd Uwchraddio'r Grid yn:

Cyfrannu at filiau ynni is yn y tymor hir a gwneud ynni'r DU yn fwy hunangynhaliol.

Cefnogi dros 220,000 o swyddi bob blwyddyn rhwng 2024 a 2035.

Am ragor o wybodaeth am Uwchraddio'r Grid, ewch i:
nationalgrid.com/uwchraddior-grid

nationalgrid

Cysylltu â'r Grid

Mae National Grid Electricity Transmission yn berchen ar ac yn rheoli'r rhwydwaith trosglwyddo foltedd uchel.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gysylltu cwsmeriaid newydd - ffermydd solar, ffermydd gwynt, systemau storio batris, canolfannau data - â'r grid.

Y Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol (NESO) yw'r gweithredwr system a'r cynlluniwr annibynnol ar gyfer rhwydweithiau ynni Prydain Fawr.



Mae ceisiadau am gysylltiadau yn mynd trwy'r broses ganlynol:

1
Mae'r datblygwr yn cyflwyno cais i NESO

2
Os derbynnir y cais, mae NESO yn cytuno ar gontract a dyddiad cysylltu

3
Yna mae NESO yn trosglwyddo'r prosiect i ni i'w symud ymlaen

4
Rydym yn asesu'r prosiect ac yn nodi ble y gall gysylltu â'r rhwydwaith

5
Rydym yn gwirio a oes gan y rhwydwaith is-orsafoedd presennol ddigon o gapasiti

6
Os na all y rhwydwaith presennol gynnal y cysylltiad, rydym yn cynllunio uwchraddiadau neu seilwaith newydd

7
Unwaith y bydd y datblygwr wedi cwblhau ei waith gofynnol, gall y gwaith cysylltu ddechrau

8
Ar ôl i'r holl waith gael ei gwblhau, mae'r prosiect yn cael ei gysylltu â'r rhwydwaith trydan

nationalgrid

Is-orsafoedd



Mae is-orsafoedd yn gyswllt hanfodol yn ein rhwydwaith, gan gysylltu ynni â'r grid. Mae nhw'n newid trydan i'r foltedd cywir ac yn ei gyfeirio'n ddiogel o amgylch y rhwydwaith fel y gall pŵer gyrraedd cartrefi a busnesau.



Mae dau fath gwahanol o is-orsafoedd:

- Mae offer switshio wedi'i inswleiddio ag aer neu AIS yn defnyddio aer i inswleiddio cydrannau trydanol
- Mae offer switshio wedi'i inswleiddio â nwy neu GIS yn defnyddio nwy i inswleiddio cydrannau trydanol.

Wrth gynllunio is-orsaf newydd rydym yn ystyried yn ofalus y gofynion gofod, effeithiau amgylcheddol, cost, diogelwch a chynnal a chadw.

nationalgrid

Sut mae is-orsafoedd yn cael eu hadeiladu?



Mae adeiladu is-orsaf yn cynnwys sawl cam pwysig i sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn ac yn ffitio i'r amgylchedd lleol.

1
Clirio a lefelu'r ardal

2
Cloddio'r ddaear i wneud lle i'r sylfeini

3
Bydd adeiladau'n amrywio yn dibynnu ar y math o is-orsafoedd

4
Gorchuddio'r adeiladau yn unol ag amodau cynllunio

5
Gosod cysylltiad trydanol rhwng yr is-orsafoedd a'r rhwydwaith

6
Tirlunio'r ardal gyfagos – plannu gwrychoedd a choed i leihau'r golygfeydd o'r is-orsafoedd

nationalgrid

Ailddatblygu Is-orsafoedd Aberddawan



Yn ardal Caerdydd, mae nifer o ddatblygwyr wedi gofyn am gysylltu eu prosiectau â'n rhwydwaith.

I gysylltu'r prosiectau hyn â'n rhwydwaith, mae National Grid yn cynnig dwy is-orsaf newydd ar safle gerllaw ein Is-orsafoedd presennol yn Aberddawan. Unwaith yn weithredol byddai'r prosiect yn disodli'r ddwy is-orsaf bresennol yn Aberddawan ac yn cael ei adnabod fel Is-orsaf Silstwn.

Bydd y safle'n cynnwys un is-orsaf GIS 275 kV ac un is-orsaf GIS 132 kV. Ar y cam hwn o'r dyluniad, mae adeilad yr is-orsaf 275 kV tua 140m x 30m ac yn 15m o uchder, tra bod yr un 132 kV yn 75m x 25m ac yn 15m o uchder.


Yn allanol bydd yn ymddangos fel un is-orsaf a'n bwriad yw lliniaru effeithiau gweledol cyn belled ag y bo modd gan ddefnyddio tirlunio a sgrinio.

Bydd gan yr is-orsafoedd newydd gapasiti cychwynnol o 1.4 Gigawat (GW), gyda'r potensial i godi i 2.1 GW i ddiwallu'r galw am drydan yn y dyfodol. Capasiti is-orsafoedd presennol Aberddawan yw 0.4 GW.



nationalgrid

Ailddatblygu Is-orsafoedd Aberddawan



Allwedd

Ffin y prosiect

Compownd gweithredol

Yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio gan Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer y ddwy is-orsaf newydd, bydd y ddwy is-orsaf bresennol yn Aberddawan yn cael eu dymchwel.

Byddwn yn ceisio caniatâd cynllunio ar wahân gan y Cyngor i ddymchwel y ddwy is-orsaf bresennol. Yn y cyfamser, bydd ein dwy is-orsaf bresennol yn parhau i weithredu'n ddiogel.

Fel rhan o'r datblygiad, mae hefyd angen ail-alinio'r tyrau presennol terfynol i mewn i'r is-orsaf wedi'i hailadeiladu.

Bydd yr ail-aliniad hwn yn cynnwys cael gwared ar dri thŵr llinell uwchben presennol a'u disodli gan bedwar tŵr llinell uwchben parhaol arfaethedig yn ogystal â thri thŵr dros dro a fydd yn ofynnol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Byddwn yn ceisio caniatâd Adran 37 ar gyfer y gwaith llinell uwchben ar wahân i'r prif gais cynllunio. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net sy'n penderfynu ar geisiadau caniatâd Adran 37 yng Nghymru, ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol eraill.

Mae mynediad i'r safle ar gyfer y prif safle wedi'i gynllunio trwy'r ffordd fynediad bresennol ar gyfer yr hen orsaf bŵer. Efallai y bydd angen cael mynediad dros dro ar gyfer pecynnau gwaith llai, fel plannu llystyfiant newydd, trwy lwybrau eraill.

Ein nod yw lleihau effaith y prosiect ar yr amgylchedd a'r gymuned leol gymaint â phosibl.

nationalgrid

Buddsoddi mewn cymunedau



Mae cymunedau wrth wraidd trawsnewidiad y DU i ynni mwy diogel, glanach, cartref o ffynonellau mwy fforddiadwy.



Mae gan National Grid ymrwymiad hirdymor i'r cymunedau rydym yn gweithio ochr yn ochr â nhw, ac rydym am sicrhau buddion parhaol i'r bobl a'r llefydd sy'n cynnal ein seilwaith newydd.

Os rhoddir cymeradwyaeth gynllunio, bydd NGET, gan weithio ochr yn ochr â'n contractwyr, yn cefnogi ac yn buddsoddi yn y gymuned leol mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys trwy gyllid grant lleol, datblygu sgiliau, allgymorth ysgolion a gwirfoddoli.